

## Canllaw Syml yr Athro Prysur i Newid yn yr Hinsawdd

### 1. Beth yw'r broblem?

Mae'r byd yn mynd yn gynhesach. Mae tymheredd cyfartalog arwyneb y Ddaear wedi cynyddu tua 0.85 °C yn y 100 mlynedd diwethaf. Cofnodwyd 14 o'r 15 blynedd gynhesaf yn ystod yr 21ain Ganrif, gyda 2015 yn gosod y record am y flwyddyn gynhesaf a gofnodwyd erioed.

### 2. Pam mae hyn yn digwydd?

Nwyon tŷ gwydr, carbon deuocsid yn bennaf. Mae nwyon sy'n cael eu rhyddhau o ddiwydiant ac amaethyddiaeth (a elwir yn allyriadau) yn ychwanegu at yr effaith tŷ gwydr naturiol, sef y ffordd y mae atmosffer y Ddaear yn trapio rhywfaint o ynni'r Haul.

Mae gweithgareddau dynol megis llosgi tanwydd ffosil fel glo, olew a nwy naturiol yn cynyddu swm y carbon deuocsid (CO<sub>2</sub>) sydd yn yr atmosffer, y prif nwy tŷ gwydr sy'n gyfrifol am gynhesu byd-eang.

Mae coed byw yn amsugno CO<sub>2</sub>, yn ei storio ac yn rhyddhau ocsigen (O<sub>2</sub>). Fodd bynnag, pan fydd coedwigoedd yn cael eu torri i lawr, nid yw'r coed yn amsugno unrhyw CO<sub>2</sub>; ac yn waeth fyth, os ydynt yn cael eu llosgi i lawr, maent yn rhyddhau'r CO<sub>2</sub> sydd wedi'i storio i'r atmosffer. Mae coedwigoedd glaw yn bwysig iawn yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd, ond maent yn cael eu torri i lawr ar gyfer eu coed, ar gyfer cloddio, i ffermio gwartheg (sy'n allyrru methan, nwy tŷ gwydr arall), ac i blannu olew palmwydd. Mae tua 20% o allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang yn dod o ddatgoedwigo.

Mae crynodiad y CO<sub>2</sub> yn yr atmosffer bellach yn uwch nag ar unrhyw adeg yn yr 800,000 mlynedd diwethaf, a chyrhaeddodd y cofnod uchaf erioed ym mis Mai 2015.

### 3. Beth yw'r effeithiau

Tymereddau uwch, digwyddiadau tywydd eithafol a lefelau môr uwch. Heddiw, mae'r rhain i gyd yn gysylltiedig â hinsawdd sy'n cynhesu, a gallai gael effaith syfrdanol ar ranbarthau'r byd. Mae cyfradd y codiad yn lefel y môr wedi cyflymu dros y degawdau diwethaf, gan osod nifer o ynysoedd megis Tuvalu a'r Maldives, a gwledydd isel fel Bangladesh mewn perygl. Mae haenau iâ pegynol sy'n encilio yn cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd hwn.

### 4. Y dyfodol

Tymereddau uwch a thywydd mwy eithafol. Mae graddfa'r effeithiau posibl yn ansicr. Gallai'r newidiadau arwain at greu prinder dŵr croyw, newidiadau mawr mewn amodau cynhyrchu bwyd, a chynnydd yn nifer yr anafiadau o ganlyniad i lifogydd, stormydd, tonnau gwres a sychder.

Y rheswm am hyn yw oherwydd y disgwylir i'r newid yn yr hinsawdd gynyddu achosion o dywydd eithafol a pha mor aml byddant yn digwydd; fodd bynnag, mae cysylltu unrhyw ddigwyddiad unigol i gynhesu byd-eang yn gymhleth.

Mae hyn yn effeithio ar bobl ar draws y byd, ond yn llawer mwy mewn gwledydd tlotach, lle mae gan bobl lai o adnoddau i ymateb i argyfwng.

Addaswyd o '6 graphics that explain climate change' - cliciwch yma am y graffigwaith [www.bbc.co.uk/news/resources/1dt-5aceb360-8bc3-4741-99f0-2e4f76ca02bb](http://www.bbc.co.uk/news/resources/1dt-5aceb360-8bc3-4741-99f0-2e4f76ca02bb)

Darganfyddwch yr hyn y cytunodd gwledydd i'w wneud am hyn yng Nghynhadledd Newid yn yr Hinsawdd COP21

[www.bbc.co.uk/news/science-environment-35084374](http://www.bbc.co.uk/news/science-environment-35084374)